Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth

# Gweithio gyda'n gilydd dros ofal caredig, diogel ac effeithiol

Crynodeb o'n gwaith yn 2021–2022

# Amdanom ni

Ein gweledigaeth yw nyrsio a bydwreigiaeth ddiogel, effeithiol a charedig sy'n gwella iechyd a llesiant pawb. Fel y rheoleiddiwr annibynnol dros mwy na 758,000 o weithwyr nyrsio a bydwreigiaeth proffesiynol, mae gennym ni rôl bwysig i'w chwarae er mwyn gwireddu hyn.

Ein rôl graidd yw **rheoleiddio**. Yn gyntaf, rydym ni'n hyrwyddo addysg uchel a safonau proffesiynol i nyrsys a bydwragedd ledled y DU a nyrsys cynorthwyol yn Lloegr. Yn ail, rydym ni'n cynnal y gofrestr o weithwyr proffesiynol sy'n gymwys i ymarfer. Yn drydydd, rydym ni'n archwilio i mewn i bryderon am nyrsys, bydwragedd a nyrsys cyswllt – rhywbeth sy'n effeithio ar leiafrif bychan o weithwyr proffesiynol bob blwyddyn. Rydym ni'n credu rhoi'r cyfle i weithwyr proffesiynol ateb pryderon, ond byddwn yn wastad yn gweithredu pan fo angen.

Er mwyn rheoleiddio'n dda, rydym ni'n **cefnog**i ein proffesiynau a'r cyhoedd. Rydym ni'n creu adnoddau a chyfarwyddyd sy'n ddefnyddiol trwy gydol gyrfaoedd pobl, sy'n eu helpu nhw i ddarparu ein safonau mewn ymarfer ac ateb heriau newydd. Rydym ni hefyd yn cefnogi pobl sy'n rhan o'n harchwiliadau, ac rydym ni'n cynyddu ein gwelededd fel bod pobl yn teimlo eu bod wedi'u hymgysylltu a'u grymuso i siapio ein gwaith.

Mae rheoleiddio a chefnogi'n proffesiynau yn caniatáu i ni **ddylanwadu** ar iechyd a gofal cymdeithasol. Rydym ni'n rhannu gwybodaeth o'n gweithgareddau rheoleiddiol ac yn gweithio gyda'n partneriaid i gynorthwyo cynllunio gweithlu a gwneud penderfyniadau ar draws y sector. Rydym ni'n defnyddio'n llais i godi llais dros amgylchedd gwaith a chynhwysol i'n proffesiynau.

# Ein cofrestr mewn rhifau

**Ar 31 Mawrth 2022 roedd:**

**704,520** o nyrsys

**40,165** o fydwragedd

**6,744** o rai wedi'u cofrestru'n ddeuol

**6,874** o nyrsys cyswllt

Cyfanswm o **758,303 o bobl.** (O'i gymharu â 731,900 y flwyddyn flaenorol.)

Ar **31 Mawrth 2022** roedd **14,952 o bobl ar y gofrestr dros dro Covid-19**.

**Yn ystod 2021–2022, ymunodd neu ail-ymunodd 2,101 o weithwyr proffesiynol y gofrestr barhaol o'r gofrestr dros dro.**

Byddwn ni'n parhau i gefnogi rhai sydd wedi'u cofrestru dros dro i ymuno â'r gofrestr barhaol, pe dymunent, cyn i'r gofrestr dros dro gau ar ddiwedd mis Medi 2022.

## Rydym ni'n gwerthfawrogi amrywiaeth ein cofrestr

**Mae 24.7% o bobl ar ein cofrestr o gefndiroedd lleiafrifol ethnig, o'i gymharu â 21.7 y cant y flwyddyn flaenorol.**

**Mae gan 3.2% anabledd.**

**Mae'r cyfrannau o ddynion a merched wedi newid ychydig dros y blynyddoedd diwethaf.**

**Mae 89.1% yn dweud wrthym eu bod yn fenywod.**

**Mae 10.9% yn dweud wrthym eu bod yn ddynion.**

**Dywedodd 0.8% nad yw eu hunaniaeth rywedd yn cydweddu â'r rhyw y cawsant eu cofrestru ynddi ar enedigaeth.**

# Ein heffaith mewn rhifau



**Cwblhaon ni**

**99.6 %**

**o geisiadau cofrestru cyntaf y DU o fewn un diwrnod, gan gyrraedd ein targed o 97 y cant.**

**Cwblhaon ni**



**99.7%**

**y cant o geisiadau cofrestru tramor oddi mewn i'n nod o 30 diwrnod, gan ragori ar ein targed o 90 y cant.**

Am y chwe mis olaf y flwyddyn gwnaethon ni brosesu ceisiadau oddi mewn i tua deg diwrnod calendr. Roedden ni'n gallu cyflawni hyn gydag arian ychwanegol gan yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol.



## Ailddilysu

Er mwyn parhau ar y gofrestr, mae rhaid i bob person proffesiynol arddangos ei fod cynnal ymarfer diogel ac effeithiol drwy ailddilysu unwaith bob tair blynedd.

**Er gwaethaf pwysau'r pandemig, ailddilysodd**

**205,044**

**o weithwyr proffesiynol yn llwyddiannus.**

Mae hynny'n 89.6 y cant o'r rheini a oedd disgwyl iddyn nhw wneud.

Mae hyn yn cynnwys **370** o nyrsys cyswllt a oedd yn ailddilysu am y tro cyntaf ers yr ychwanegwyd y rroffesiwn hwn i'r gofrestr ym mis Ionawr 2019.

## Addasrwydd i ymarfer

Mae addasrwydd i ymarfer yn broses a ddilynwn i ddeall cyn gynted â phosibl a yw gweithiwr proffesiynol cofrestredig yn peri risg i'r cyhoedd pan godir pryderon gyda ni. Os ydynt, gallwn ni gymryd camau i hyrwyddo dysgu ac atal problemau godi eto. Byddwn ni'n wastad yn gweithredu pan fo angen, gan gynnwys tynnu pobl o'n cofrestr yn yr achosion mwyaf difrifol.

Yn **2021–2022** derbynion ni

**5,291** **o bryderon newydd** **am nyrsys, bydwragedd a nyrsys cyswllt.** (4.6 yn llai na'r flwyddyn flaenorol.)

**Penderfynon ni beidio ag archwilio**

**3,843** **o achosion ar ôl asesiad dechreuol.**

**Gorchmynion dros dro:** Gall ein panelau osod cyfyngiadau dros dro ar ymarfer rhywun neu eu hatal tra bo ein harchwiliadau'n parhau os ydym ni'n credu bod angen hyn er mwyn diogelu'r cyhoedd. **Digwyddodd hyn mewn 504 o achosion eleni.**

Cwblhaon ni

**1,582**

o archwiliadau

**Rhoeson ni gyngor, rybudd, neu cytunon ni ar fesurau a fyddai'n mynd i'r afael â'r broblem mewn 102 o achosion.**

**Cyfeiriwyd 741 o achosion at banelau addasrwydd i ymarfer annibynnol am wrandawiad neu gyfarfod.**

**Mewn 739 o achosion, nid oedd angen gweithredu ymhellach.**

**109**

o bobl a aeth drwy ein proses addasrwydd i ymarfer a dynnwyd o'r gofrestr.

**Caniatawyd i 46 ychwanegol gael eu tynnu'n wirfoddol.**

**Ataliwyd 124 o bobl o'r gofrestr, rhoddwyd rhybudd i 37 a rhoddwyd amodau ar ymarfer 61 o bobl.**

## Ein targedau perfformiad addasrwydd i ymarfer

**77%** **Gosodon ni 77 y cant o orchmynion dros dro o fewn 28 diwrnod o dderbyn pryderon.** (Targed: 80 y cant.)

**62%** **Caeon ni 62 y cant o achosion o fewn 15 mis.** (Targed: 80 y cant)

Er mawr siom, ni wnaethon y cynnydd roedden ni ei angen i leihau ein baich achosion eleni, er bu i ni lwyddo i'w sefydlogi. Mae'n ddrwg iawn gennym am y gofid pellach mae hyn yn ei achosi i bawb a gynhwysir. Rydym ni'n benderfynol o gyflenwi newidiadau yn y flwyddyn sy'n dod i leihau'r amser mae pobl yn disgwyl am benderfyniad.

## Cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant mewn addasrwydd i ymarfer

O gymharu â'r cyfrannau ar ein cofrestr, rydym yn derbyn atgyfeiriadau uwch ar gyfer y rhai sy'n wrywaidd, yn anabl, yn draws, yn ddeurywiol, yn hoyw neu'n lesbiaidd, yn Ddu, neu'n rhai 41 oed a hŷn.

**23.2%** **o atgyfeiriadau newydd yn ymwneud â dynion.** (Mae 10.9 y cant o bobl ar y gofrestr barhaol yn dweud wrthym eu bod yn ddynion).

**16.1%** **y cant o bob atgyfeiriad newydd am bobl o grwpiau ethnig Du.** (Mae 10 y cant o bobl ar y gofrestr yn Ddu).

**Darllenwch fwy** am ein hymchwil i'r gwahaniaethau hyn ar dudalen 11 iso.

## Pobl yn yr NMC

**Cynyddodd trosiant gweithwyr i** **11.8%**
(Targed: 10 y cant)

**Cynyddodd y nifer o ddechreuwyr newydd a adawodd o fewn chwe mis i** **14.3%**
(Targed: 10 y cant)


Fel sefydliadau eraill, roedden ni'n disgwyl cynnydd mewn trosiant, yn rhannol oherwydd y lefelau eithriadol o isel o drosiant yn ystod y pandemig a'r farchnad gynyddol a yrrir gan ymgeiswyr fel mae cyfyngiadau yn cael eu llacio.

# Beth wnaethon ni ei wario

Ein hincwm oedd
**£100** miliwn

Gwnaethon ni wario
**£93** miliwn

**Dyma sut wnaethon ni wario'r arian hwn:**



**£42m**
Addasrwydd i ymarfer

**£10m**
Ystadau, cyllid, pobl a datblygu sefydliadol

**£10m**
Technoleg gwybodaeth

**£8m**
Cynnal y gofrestr

**£7m**
Addysg, safonau a pholisi

**£6m**
Llywodraethiant, cyfreithiol a'r ffi Awdurdod Safonau Proffesiynol

**£6m**
Dibrisiant

**£3m**
Cyfathrebiadau ac ymgysylltu

Rydym ni'n ymwybodol fod y mwyafrif o'n cyllid yn dod o'r rhai sydd ar ein cofrestr ac mae angen i ni wario'r arian hwnnw mor effeithiol â phosibl.

*Nid yw'r cyfansymiau yma'n adio i £93m oherwydd talgrynnu.



**"Diolch am gydnabod ein HOLL ymdrechion. Roedd yn hyfryd derbyn neges gadarnhaol pan gyrhaeddais adref o sifft 12 awr arall yn gweithio mewn uned dementia Covid-positif."**

Gweithiwr Proffesiynol ar ein cofrestr

# Yr hyn a wnaethom eleni

## Gwnaethon ni gefnogi gweithwyr proffesiynol drwy flwyddyn heriol arall

Gweithion ni'n glòs â'r gweithwyr proffesiynol ar ein cofrestr ar draws y DU i'w cefnogi nhw yn ystod y pandemig.

Darparon ni ddiweddariadau rheolaidd o'n gwaith i ehangu a chefnogi'r gweithlu, gan gynnwys camau cyfeirio at gymorth llesiant. Arhoson ni wedi ein cysylltu a pharaon ni i gydweithio â gweithwyr proffesiynol. Roedd y rhan fwyaf o'n digwyddiadau ymgysylltu ar-lein, a gynyddodd ein gweledidd a golygodd hyn bod nifer wedi'u mynychu.

Mae llacio'r cyfyngiadau wedi ein galluogi i ailddechrau ein hymgysylltu personol, ail-ganolbwyntio ar flaenoriaethau ac edrych ar sut byddwn ni'n gwneud cynnydd gyda'n huchelgeisiau strategol.

## Gwnaethon ni flaenoriaethu ein baich achosion addasrwydd i ymarfer wrth gynnal ein dull o ganolbwyntio ar yr unigolyn

Ein baich achosion ni yw'r nifer o bryderon addasrwydd i ymarfer mae pobl wedi'u codi â ni a beth mae'n rhaid i ni o hyd archwilio i mewn iddo. Mae'r baich achosion hwn yn uwch na beth yr hoffen a gwaethygwyd hynny gan y pandemig. Mae'n ddrwg gennym am y gofid pellach mae hyn yn ei achosi i bawb sy'n gysylltiedig

Ein prif flaenoriaeth oedd lleihau'r baich achosion, ac mae hynny'n parhau. Rydym ni wedi sefydlogi y nifer o achosion ac yn benderfynol o gyflenwi newidiadau pellach er mwyn lleihau'r amser mae pobl yn disgwyl am benderfyniad yn y flwyddyn i ddod.

## Parhaon ni i wneud ein prosesau'n deg i bawb

Mae cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant (EDI) yn brif flaenoriaeth i ac mae dal llawer i'w wneud.

Eleni, adnewyddon ni ein fframwaith EDI, datblygu cynlluniau gweithredu manwl a chynnal gweithdai cydraddoldeb hil ar gyfer ein Cyngor a Chyfarwyddwyr Gweithredol.

Gweithion ni ar ail gam ein hymchwil Uchelgeisiol dros Newid i mewn i'n prosesau a nodweddion gwarchodedig pobl. Mae'r cam hwn am ddeall pam mae rhai pobl yn derbyn canlyniadau gwahanol gan ein prosesau, beth mae hyn yn ei olygu i'r gweithwyr proffesiynol sy'n cael eu cynnwys a beth allwn ni, mewn cydweithrediad ag eraill, ei wneud i fynd i'r afael ag unrhyw annhegwch.

Rydym ni hefyd yn cydnabod y pwysigrwydd o wneud yn siŵr ein bod ni a'r bobl rydym ni'n gweithio gyda nhw yn deall ymddygiad gwahaniaethol yn llwyr. Byddwn ni'n parhau i weithredu ar hyn a chynnal y cynlluniau rydym wedi'u cytuno.

## Ymatebon ni i Adolygiad Mamolaeth Ockenden

Cyhoeddwyd yr Adolygiad Mamolaeth Ockenden ym mis Mawrth 2022 a osododd allan methiannau ofnadwy a hirsefydlog mewn gofal mamolaeth ac arweinyddiaeth yn Ymddiriedolaeth GIG Ysbyty Amwythig a Telford. Mae pob un o'r achosion yn drasiedi teuluol.

Ysgrifennon at bob bydwraig ar ein cofrestr yn dilyn yr adroddiad. Cydnabyddon y pwysau anhygoel maen nhw o dani a rhannon ni adnoddau, fel ein safonau ar gyfer bydwragedd y dyfodol, a fydd yn ein cynorthwyo i gyflenwi gofal diogel, caredig ac effeithiol.

Mae'n hanfodol bod teuluoedd yn cael eu clywed, staff yn gallu dweud eu dweud a gweithredir ar bryderon. Gwnawn bopeth y gallwn i weithio â rheoleiddwyr, cyflogwyr a gweithwyr proffesiynol eraill i wneud gwelliannau ddigwydd.

**"Mae'r methiannau systemig hyn bellach wedi'u cydnabod oherwydd penderfyniad diwyro a dewrder y teuluoedd galarus. Dylid bod wedi gwrando ar ferched a theuluoedd a'u cymryd o ddifrif yn llawer cynt."**

Andrea Sutcliffe,

Prif Weithredwr a Chofrestrydd, NMC

## Diweddaron ni ein prosesau cofrestru tramor

Diweddaron ni'r Prawf Cymhwysedd mae rhaid i nyrsys a bydwragedd sydd wedi'u hyfforddi'n rhyngwladol ei gymryd prawf cyn iddyn nhw ymuno â'n cofrestr. Mae'r prawf hefyd yn cael ei ddefnyddio fel llwybr i ddychwelyd i'r gofrestr ar gyfer y rheiny sydd wedi bod allan o ymarfer am amser maith ac sy'n dymuno cael eu hail-gofrestru.

Mae'r prawf bellach yn adlewyrchu ein safonau newydd o'r radd flaenaf ac mae'n golygu gall pobl fod yn hyderus yn yr ansawdd o ofal maen nhw'n ei dderbyn – lle bynnag mae rhywun wedi'i hyfforddi.

Mae'r arholiad clinigol strwythuredig gwrthrychol (OSCE) yn un rhan o'r Prawf Cymhwysedd ac mae'n arholiad ymarferol a sefir mewn canolfan brawf yn y DU. Rydym ni wedi cynyddu ein darpariaeth o ganolfannau prawf OSCE yn sylweddol ac wedi comisiynu dwy ganolfan newydd. Mae'r capasiti ychwanegol hwn yn golygu bydd gan weithwyr proffesiynol fwy o ddewis o ble i gymryd eu prawf, yn eu galluogi i ymuno â'n cofrestr yn gyflym ac yn ddiogel.

## Adolygon ni ein safonau ôl-gofrestru

Rydym ni'n diweddaru'r safonau a osodwyd genny mar gyfer cymwysterau ôl-gofrestru er mwyn eu gwneud nhw'n addas ar gyfer y dyfodol. Dyma'r tro cyntaf iddyn nhw gael eu diweddaru am dros 15 mlynedd.

Yn dilyn ymgynghoriad cyhoeddus eang, rydym ni bellach wedi cytuno ar safonau newydd.

Roedd ein proses ymgynghorol yn drylwyr a chawsom dros 2,300 o ymatebion. Rydym ni'n ddiolchgar iawn i'r holl sefydliadau sydd wedi gweithio gyda ni, ac i bawb a gymerodd ran.

**"Rydym ni'n falch fod y Prawf Cymhwysedd wedi'i ddiweddaru i adlewyrchu safonau newydd yr NMC ar gyfer gweithwyr nyrsio a bydwreigiaeth proffesiynol. Bydd y prawf newydd yn sicrhau bydd pob gweithiwr nyrsio a bydwreigiaeth proffesiynol yn cyrraedd yr un safonau uchel, lle bynnag maen nhw wedi'u hyfforddi neu am ba mor hir maen nhw wedi bod allan o ymarfer."**

Y Pedwar Prif Swyddog Nyrsio, Awst 2021

## Rydym ni'n helpu ateb rhwystrau cyfreithiol fel gallwn ni fod yn fwy effeithiol

Mae gennym ni gyfle unwaith mewn cenhedlaeth i foderneiddio'r cyfreithiau sy'n rheoli sut rydym ni'n rheoleiddio nyrsys, bydwragedd a nyrsys cyswllt.

Os yw'r Llywodraeth yn gwella'r ddeddfwriaeth hon a'i gwneud yn fwy hyblyg, byddwn ni'n gallu gweithredu'n gynt ac yn fwy effeithiol. Mae hyn yn golygu gallwn wneud mwy i alluogi rheoleiddiad i'r cyhoedd a'r gweithwyr proffesiynol ar y gofrestr.

Ymatebon ni i ymgynghoriad yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol ym mis Mehefin 2021, ac ers hynny, rydym ni wedi gweithio â'r Adran a rhanddeiliaid eraill i ystyried beth rydym ni'n ei feddwl sut dylai ein deddfwriaeth edrych, er enghraifft, sicrhau bod gennym yr hawl i deitlau gwarchodedig a phwerau gorfodi.

Rydym ni wedi dechrau gweithio ar sut i wneud y gorau o'r newidiadau arfaethedig, a beth allai fod yr effaith ddilynol ar ein sefydliad a'n gwaith rheoleiddio.

## Gwrandawon ni arnat ti

Wnaethon ni gomisiynu ymchwil cynulleidfa annibynnol er mwyn deall yn well beth mae pobl broffesiynol, myfyrwyr a'r cyhoedd yn meddwl amdanom ni a beth maen nhw'n meddwl amdano. Clywson gan ystod eang o leisiau ar draws pedair gwlad y DU.

Roedd yr ymchwil yn dangos bod y pwysau ar y gweithlu ar flaen meddwl pawb, a bod y cyhoedd yn cydymdeimlo â hyn. Mae rhanddeiliaid am i ni gefnogi a dylanwadu mwy. Yn arbennig, maen nhw am ein gweld ni'n rhannu gwybodaeth a gwaith ag eraill er mwyn dylanwadu'r sector yn gadarnhaol.

Mae canfyddiadau llawn yr ymchwil yn siapio ein cynlluniau ar gyfer y dyfodol yn ogystal â'n sgyrsiau â phartneriaid, ac yn hysbysu sut a beth rydym ni'n ei gyfathrebu â phobl.

**"Dw i'n dweud bod yr NMC eisiau symud ymlaen a bod yn well drwy ymgysylltu â'r cyhoedd, a dw i'n credu bod hyn yn gam yn y cyfeiriad cywir."**

Aelod o Fforwm
Llais Cyhoeddus yr NMC

## Gweithion ni tuag at NMC gwell

Rydym ni'n gwneud yn siŵr bod ein sefydliad yn addas ar gyfer y dyfodol. Eleni, gwnaethon ni gynnydd tuag at uwchraddio ein systemau digidol a chreu gweithleoedd sy'n cefnogi llesian a chydweithrediad.

Rydym ni hefyd yn gweithio'n galed i fod yn gyflogwr mwy cynhwysol sy'n denu'r dalent orau, yn datblygu cyd-weithwyr ac yn sicrhau fod pawb yn cael ei wobrwyo'n briodol. Datblygon ni Gynllun Pobl i helpu ni wneud hyn.

Fel yr â'r gwaith hwn rhagddo, rydym ni'n ymwybodol fod y mwyafrif o'n cyllid yn dod o'r rhai sydd ar ein cofrestr ac mae angen i ni wario'r arian hwnnw mor effeithiol â phosibl drwy wneud yn siŵr bod gennym ni'r galluoedd, prosesau ac adnoddau iawn i wireddu ein huchelgeisiau.

## Edrych ymlaen

Yn sgil mae effaith annisgwyl y pandemig wedi'i chael ar ein gwaith a'r sector gofal, rydym ni wedi adolygu ein cynnydd a'n blaenoriaethau ar gyfer y blynyddoedd a ddaw. Rydym ni wedi ail asesu sut byddwn ni'n ymdrin â'n hymrwymiadau, a pha rannau o waith bydd bellach yn cael eu gwneud ar ôl 2025.

Gosodir hyn allan yn ein Cynllun Corfforaethol 2022 2025. Rydym ni'n hyderus mai trwy weithio'n gydweithredol, bod yn deg ac yn garedig byddwn ni'n gwireddu ein huchelgeisiau er budd y cyhoedd rydym ni'n ei wasanaethu a'r gweithwyr proffesiynol yn ein cofrestr.

Gallwch ganfod mwy trwy ddarllen ein Cynllun Corfforaethol [weblink], Cynllun Pobl a Chynllun Gweithredu EDI.

**“Rwyf wedi mwynhau pob munud yn y Ganolfan Frechu, ac roeddwn am gymryd yr amser hwn i ddiolch i’r NMC am roi’r cyfle i mi gyfrannu a gwneud fy rhan i helpu i achub bywydau pobl.”**

Gweithiwr proffesiynol ar y gofrestr dros dro

**“Annwyl Andrea a phawb yn yr NMC ... diolch am eich gwaith caled a’ch ymroddiad i’r proffesiwn trwy gydol y pandemig - yn arbennig eich rhan yn amddiffyn myfyrwyr nyrsio.”**

Myfyriwr nyrs

23 Portland Place,
Llundain W1B 1PZ

**T +44 20 7333 9333**

**nmc.org.uk**

© Hawlfraint y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth 2022

Rheoleiddiwr nyrsio a bydwreigiaeth Cymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon Elusen gofrestredig yng Nghymru a Lloegr (1091434) ac yn yr Alban (SC038362).
©NMC 2022–2025